

Ysgol Gymraeg Ffwrnes

Dyma'n Polisi Gwrth Fwlio. Mae'n egluro sut rydym yn dysgu plant am fwlio a'i effeithiau, sut gallwn eich helpu i gadw'n ddiogel a sut rydym yn helpu pawb i ddatblygu perthnasoedd da yng nghymuned ein hysgol.

Mae bwlio'n ymddygiad angharedig sy'n bwriadu achosi poen i rywun neu brifo eu teimladau. Gall hyn gynnwys: bwrw, cicio, dweud geiriau cas, gwneud niwed i eiddo rhywun neu ddefnyddio ffôn neu'r rhyngwyd i yrru negeseuon cas. Fel arfer mae bwli yn pigo ar yr un plentyn neu'r un grŵp tro ar ôl tro.

Rydym yn addo siarad â rhieni, staff a disgyblion i sicrhau bod pawb yn gwybod:

- beth ydi bwlio
- sut byddwn ni'n ceisio atal bwlio yn ein hysgol
- beth i wneud os ydy rhywun yn cael ei fwlio neu gweld rhywun arall yn cael ei fwlio

Bydd ein disgyblion yn cael y cyfle i ddysgu:

- Sut i fod yn ffrind da a dangos parch i'n gilydd
- Sut i gael help os ydynt yn poeni am fwlio adref neu yn yr ysgol
- Ein bod ni i gyd yn wahanol ac i gyd yn arbennig
- Beth ydi bwlio a sut y gall pawb helpu drwy ddweud wrth athrawon os ydyn nhw'n gweld rhywun yn bwlio
- Beth fydd yn digwydd i blant sy'n bwlio
- Sut mae'r cyngor ysgol yn medru helpu i wneud ein hysgol yn ddiogel a hapus i bawb

Bydd pawb yn gwybod eni bod ni'n ysgol ofalgar achos:

- Mae gyda ni Gyfeillion Cŵl ym mlwyddyn 1 a 2 a heddychwyr y buarth yng nghyfnod allweddol 2 i sicrhau bod amser chwarae yn hapus i bawb
- Rydym yn gweithio gyda disgyblion i daclo bwlio a sicrhau bod pawb yn teimlo'n ddiogel
- Rydym yn annog plant i ddweud wrthom ni os ydyn nhw'n anhapus er mwyn i ni ddatrys y broblem neu gael help iddyn nhw
- Rydym yn cymryd rhan yn Wythnos Gwrth fwlio yn flynyddol gan gynnal wythnos o weithgareddau



Rydym fel cyngor ysgol yn cytuno gyda polisi gwrth fwlio Ysgol Gymraeg Ffwrnes.

Arwyddwyd ar ran y cyngor ysgol:

Cadeirydd.....

Ysgrifennydd.....

Dyddiad